CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

UNED DATBLYGU ECONOMAIDD Cylchlythyr

Mwy o wybodaeth ar ein gwefan www.ynysmon.gov.uk

Chwefror 2013

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i fod yn gadarnhaol y gellir dod o hyd i fuddsoddwyr newydd yn dilyn y cyhoeddiadau siomedig a wnaed yn ddiweddar mewn perthynas â Vion/Welsh Country Food ac Alwminiwm Môn Cyf.

Rhaid croesawu pob buddsoddiad priodol newydd, ond mae'n bwysig bod busnesau cyfredol yn arallgyfeirio ac yn tyfu os am sicrhau twf economaidd gwirioneddol a chyflogaeth bosib ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- **Cefnogi gweithlu Welsh Country Food -** Mae'r Cyngor Sir yn cydlynu'r cymorth a ddarperir gan Unite, Cyngres Undebau Llafur Cymru, y Ganolfan Waith, Gyrfaoedd Cymru, Coleg Menai a Menter Môn i gefnogi gweithwyr sy'n wynebu colli eu swyddi. Mae perchenogion y safle yn obeithiol y gellir cael prynwr ar gyfer y lladd-dy yn fuan. Cliciwch Yma

- **Mae safle Alwminiwm Môn yn parhau i fod yn ased i Economi Ynys Môn -** Y mis hwn cawsom y newyddion siomedig y bydd safle Alwminiwm Môn yng Nghaergybi yn cau. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn dal i fod yn obeithiol y bydd Lateral Power yn prynu ac yn ailddatblygu safle'r mwyndoddydd i greu gwaith biomas, gan greu hyd at 400 o swyddi. Bydd statws Ynys Môn fel Parth Menter gan Lywodraeth Cymru hefyd o gymorth i sicrhau y manteisir ar yr holl gymorth posib sydd ar gael ar gyfer y sector cyhoeddus i gynnal y safle fel canolbwynt cyflogaeth mawr. Cliciwch Yma

- **Noson fusnes yn gwneud cysylltiadau –** Daeth dros 60 o gynrychiolwyr busnesau preifat i Noson Fusnes yr Arweinydd a gynhaliwyd yn Llu Awyr Brenhinol y Fali(dydd Iau 21 Chwefror), ynghyd â swyddogion a gwleidyddion o Gyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y noson i sicrhau bod darpar fewnfuddsoddwyr yn cael cyfle unigryw i gyfarfod, cydweithio ac adeiladu perthynas a fydd yn sail ar gyfer twf cyflogaeth a llwyddiant yr Ynys i'r dyfodol. Cliciwch Yma

- **Rôl CSYM yn cefnogi Parth Menter Ynys Môn** Cliciwch Yma

- **Sicrhau'r manteision mwyaf posib o ddatblygiadau ynni mawr –** Bydd yr Uned Datblygu Economaidd yn adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini ar 26 Chwefror ar yr 'Orsaf Niwclear Arfaethedig Newydd yn Wylfa'. Mae'n cydnabod yr angen i baratoi a strwythuro ei hun i ymateb yn effeithiol i bob her a chyfle. Mae'r datblygiadau isadeiledd ynni mawr arfaethedig ar yr ynys yn rhoi cyfle unigryw i CSYM na welwyd mo'i fath o'r blaen i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at drawsnewid yr ynys yn economaidd-gymdeithasol.Cliciwch Yma

Rheoli Cyrchfan

- **Ydych chi'n fusnes bychan neu ganolig yn y sector lletygarwch,twristiaeth neu fwyd?** Efallai eich bod yn gymwys i dderbyn grant gan Wrap Cymru o hyd at £50,000 ac/neu hyd at £10,000 at ymgynghoriaeth i'ch cynorthwyo i reoli'r gwastraff yr ydych yn ei gynhyrchu, i ailgylchu mwy ac i arbed arian. Cliciwch Yma

- **Strategaeth Ddigwyddiadau Newydd ar gyfer Ynys Môn -** Mae'r Strategaeth hon yn dwyn sylw at yr angen i fonitro, hyrwyddo a rhedeg digwyddiadau'n ddiogel, gan sicrhau fod pawb yn mabwysiadu ymateb cydlynol. Nod y Strategaeth yw sicrhau bod Ynys Môn yn adeiladu ar ei llwyddiant yn denu dros 82,000 o ymwelwyr ac yn cynnal dros 300 o ddigwyddiadau bob blwyddyn. Cliciwch Yma

- **Mae Llyfryn Twristiaeth Croeso Môn ar gyfer 2013** bellach wedi ei argraffu i ddenu ymwelwyr i'r Ynys. Maent yn cael eu dosbarthu ar draws y Gogledd Orllewin ac yn arbennig ar gyfer sioeau masnach. Maent ar gael hefyd i'w lawrlwytho.Cliciwch Yma

- **Mae Strategaeth Twristiaeth newydd Llywodraeth Cymru 2020** yn amlinellu bod gyrru twf, sicrhau swyddi a datblygu cyfoeth yn hollbwysig i lwyddiant y sector twristiaeth. Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn yn gyson â'r Strategaeth hon; gan sicrhau bod twristiaeth yn cwrdd ag anghenion diwydiant byd-eang sy'n newid yn gyflym. Cliciwch Yma

- **Cyfle Tendro ar gyfer Gwefan Croeso Môn a System Rheo Ii Cynnwys -** Cliciwch Yma

Buddsoddiad a Chyfleon

- **Cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau Môn –** Mae'r Gronfa Twf Economaidd gan Lywodraeth Cymru yn grant newydd nad oes rhaid ei ad-dalu ac sy'n cefnogi busnesau sy'n dymuno ymsefydlu a thyfu. Bydd Cam 1 yn cynnig cyllid o £50,000 i £100,000. Rydym yn annog pob busnes yn Ynys Môn i ddarganfod a ydynt yn gymwys, ac os ydynt, i wneud cais. Cyfle gwych i fusnesau ar draws Ynys Môn i fuddsoddi a thyfu. Cliciwch Yma

- **Datblygu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer Canol Trefi Caergybi a Llangefni -** Bydd gweledigaeth strategol tymor hir ar gyfer canol trefi Caergybi a Llangefni yn cael ei datblygu dros yr ychydig fisoedd nesaf. Cynhelir cyfres o sesiynau gyda chydranddeiliaid y trefi ym misoedd Mawrth-Mai, a fydd yn creu gweledigaeth i'r dyfodol a fframwaith adfywio cadarn gyda'r nod o atgyfnerthu rolau'r ddau ganol tref. Am ragor o wybodaeth cysylltwch os gwelwch yn dda gyda **datecon@ynysmon.gov.uk** neu 01248 75243.

- **Angen cymorth i wella eich sgiliau tendro?** Mae Busnes Cymru yn cynnig gweithdy am ddim, sef Gweithdy Sut i Dendro. Cynhelir y gweithdy ar ddydd Iau 28 Chwefror 2013, 9am-1pm yn Gyrfa Cymru,Sgwâr y Farchnad,Caergybi. Bydd yn gyflwyniad i'r byd tendro ac yn edrych ar baratoi tendrau, sut i'w cwblhau a'r hyn sydd angen i chi ei wneud i ennill tendrau. Cliciwch Yma

  Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer rownd nesaf Cronfeydd Strwythurol yr UE am y cyfnod 2014-2020 eisoes wedi cychwyn. Rhannwch eich sylwadau ar y blaenoriaethau i Ogledd Cymru trwy gymryd rhan yn yr arolwg byr hwn(yn cau 8 Mawrth). Cliciwch Yma

- **Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Gwledig yr UE i'r dyfodol yng Nghymru –** bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig (Colofn 2 y Polisi Amaeth Cyffredin) yn digwydd ar 23 Ebrill 2013. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i gydranddeiliaid ymateb i'r strategaeth arfaethedig sy'n canolbwyntio ar dwf a swyddi. Bydd y Cyngor Sir yn ymateb yn llawn. Cliciwch Yma

- **Cymorth a gwybodaeth ar-lein i fusnesau yng Nghymru.** Mae'r wefan newydd yn fodd i fusnesau gael gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth yn gyflym ac yn hwylus. Cliciwch Yma

Rhaglen Ynys Ynni(RhYY)

- **Wythnos Gaffael –** ysbrydoli prynwyr a chyflenwyr i feddwl yn lleol, gweithredu'n genedlaethol a chaffael yn fyd-eang. Mae Rhaglen Ynys Ynni yn cefnogi Wythnos Gaffael Prifysgol Bangor (18-22 Mawrth) i baratoi a chynorthwyo busnesau lleol i fod mor gystadleuol â phosib wrth ymgeisio am gontractau. Cliciwch Yma

- **Centrica yn sefydlu swyddfa yn Llangefni -** i baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Fferm Wynt Rhiannon, mae Centrica wedi sefydlu cyfleuster rhannu desg yng Nghanolfan Fusnes Ynys Môn. Mae hyn yn tanlinellu eu hymrwymiad i gyflawni'r prosiect a gwrando ar sylwadau trigolion Ynys Môn. Cliciwch Yma

- **Cwmni Ynni Adnewyddadwy yn defnyddio contractwyr a chyflenwyr lleol –** Mae Airvolution Energy (gwefan) wedi cychwyn gweithio i ddatblygu prosiect gwynt yn Ynys Môn o'r enw "Ysgellog". Mae'r datblygwyr yn awyddus i ddefnyddio cyflenwyr lleol ac amcangyfrifir bod dros 30 o gontractwyr wedi bod yn rhan o'r gwaith adeiladu hyd yma. Cliciwch Yma

Cofrestru

Os hoffech dderbyn y llythyr newyddion am ddim ar ffurf electronig, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda datecon@ynysmon.gov.uk neu 01248 752435 a byddwn yn eich ychwanegu at y rhestr gylchredeg.

Diolch